Cyngor Cymuned Llandudoch
St Dogmaels Community Council
*Tel:* **07493 087151** ***E-mail:clerk@stdogmaelscc.gov.wales***
***Web:*** http://stdogmaelscc.gov.wales

# BIOAMRYWIAETH A'R AMGYLCHEDD

# Llandudoch



***Cyngor Cymuned Llandudoch Medi 2025***

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 : Adran 6 – Cynllun i Gynnal a Gwella Bioamrywiaeth a Hyrwyddo Gwytnwch

Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan yr hyn mae Cyngor Cymuned Llandudoch eisoes wedi ei wneud a'r hyn y mae'n ei fwriadu ar gyfer y dyfodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch. Roedd Adran 6 dan Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ecosystemau bioamrywiaeth a gwytnwch (y ddyletswydd Ad 6) ar awdurdodau cyhoeddus wrth ymarfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Mae'r ddyletswydd Ad6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag sy'n gyson ag ymarfer eu swyddogaethau'n briodol, ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

Mae chwe nod wedi eu gosod allan yn y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur** i Gymru sy'n anelu at helpu datblygu a llywio gweithredu i gydymffurfio â'r ddyletswydd Ad6. Dyma yw'r amcanion hynny:
- Nod 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel
- Nod 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o brif bwysigrwydd a gwella eu rheolaeth
- Nod 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd
- Nod 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd
- Nod 5: Gwella tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro
- Nod 6: Trefnu fframwaith o lywodraethiant a chefnogaeth ar gyfer darparu.

**Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod allan y nodweddion dilynol mewn gwytnwch ecosystemau:**
- Amrywiaeth – yn gyffredinol, mae ecosystemau mwy amrywiol yn fwy gwydn yn erbyn dylanwadau allanol a'u heffeithiau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth biolegol, daearegol a ffisegol
- Cysylltedd o fewn ecosystemau a rhyngddynt
- Graddfa a Chwmpas – po fwyaf yw cwmpas ecosystem, heb ei darnio, y mwyaf gwydn mae'n debygol o fod
- Cyflwr – mae angen i ecosystemau fod mewn cyflwr iach i weithio'n effeithiol, er mwyn darparu ystod o wasanaethau ecosystem pwysig
- Addasu – gallu ecosystemau i addasu i ddigwyddiadau, gan ddeall nad yw ecosystemau'n statig ac y byddant yn newid ymhen amser.

Mae Cyngor Cymuned Llandudoch wedi cymryd y camau dilynol er mwyn cyfrannu at y nodau hyn a hyrwyddo gwytnwch, a bydd yn parhau i wneud hynny:

**Nod 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel.**

- Mae CCLl wedi ymrwymo i gymryd bioamrywiaeth i ystyriaeth:
- Wrth reoli'n barhaus y tir sy'n eiddo iddo, e.e. Y Pinog a Gerddi Alexandra
- Wrth ystyried ceisiadau cynllunio
- Wrth archwilio materion amgylcheddol yn ei ardal, e.e. llygru cyrsiau dŵr neu blanhigion ymledol, ac ati
- Mae'r Cyngor yn trefnu ac yn rhedeg rhaglen o deithiau cerdded a sgyrsiau thema am ddim dan arweiniad ecolegydd proffesiynol i addysgu a chysylltu trigolion â bioamrywiaeth yr ardal.

**Nod 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o brif bwysigrwydd a gwella eu rheolaeth.**

- Mae CCLl wedi gwneud neu gefnogi gwaith i gynnal a gwella ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Mae'n monitro cynefinoedd i sicrhau bod ei gynllun rheoli yn effeithiol
- Mae'n gwneud newidiadau yn ei gynllun rheoli yn ôl yr angen i gynnal a gwella cynefinoedd.

**Nod 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd.**

**Nod 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.**

Mae CCLl yn ymrwymo:

- I reoli ardal y Pinog i fod yn garedig i fywyd gwyllt
- I reoli'r ardaloedd wrth ymyl Gerddi Alexandra (SoDdGA), gan weithio gyda CNC, i ddiogelu'r bywyd gwyllt a hefyd i hwyluso defnyddio'r gerddi ar gyfer hamdden
- I edrych am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth ar y tir SoDdGA ac o fewn Llandudoch
- I edrych am gyfleoedd i gefnogi peillwyr a bod yn sefydliad sy'n garedig i fywyd gwyllt
- I gefnogi gweithredu bioamrywiaeth yn lleol ac yn y gymuned
- Yn cefnogi gweithredu lleol i wella coridorau bywyd gwyllt i helpu gwella gwytnwch
- Cynnal a diogelu ein hardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

**Nod 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro.**

- Mae CC Llandudoch wedi cynnal prosiect Peilot Bioamrywiaeth i fesur bioamrywiaeth a gwytnwch
- Mae gan CCLl raglen monitro ar waith
- Ar ôl y cynllun peilot 3 blynedd, comisiynwyd ecolegydd proffesiynol i wneud arolwg o'r ardaloedd bioamrywiaeth i roi cyngor am y cynllun ac awgrymu camau pellach
- Caiff trigolion eu hannog i gyflwyno'u cofnodion o weld bywyd gwyllt drwy ddalen Facebook y Cyngor "St Dogmaels Goes Wild".

**Nod 6: Trefnu fframwaith o lywodraethiant a chefnogaeth ar gyfer darparu.**

- Mae'n cynhyrchu cynllun rheoli blynyddol ar sail ei ddarganfyddiadau o'r monitro i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth
- Caiff y cynllun ei addasu'n gyson i sicrhau bod ei reolaeth o'i dir yn bodloni'r anghenion ar gyfer cefnogi a gwella bioamrywiaeth a bywyd gwyllt
- Mae'n gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a chyrff Llywodraeth eraill.

# Y Dirwedd, y Pentref a'r Cynefinoedd

Saif Llandudoch ar ymyl ogleddol sir Penfro rhwng y Parc Cenedlaethol ac Aberteifi. Tir amaethyddol tonnog isel ydyw gan mwyaf gydag amrywiaeth o gaeau mawr a bach rheolaidd ac afreolaidd gyda ffiniau o gloddiau yn cael eu rheoli mewn amrywiol ffyrdd, a glannau gorllewinol Afon Teifi.

Ar y tir amaethyddol tonnog mae ffermydd hwnt ac yma a niferoedd cyfyngedig o anheddau ynysig. Caeau mawr a bach rheolaidd ac afreolaidd yw'r patrwm caeau gyda chloddiau a choed mewn cloddiau sy'n cael eu rheoli, a darnau o eithin a rhesi o goed a phrysgwydd ar hyd coridorau nentydd

Prif nodweddion y cynefinoedd yw tir porfa wedi ei wella gyda lefelau isel o dir âr yn ne yr ardal, darnau bach o goetiroedd llydanddail a chonifferaidd, prysgwydd a rhedyn sy'n ychwanegu diddordeb at y tir porfa sydd wedi ei wella.

Lle mae'r nodwedd hon yn ymestyn i mewn i'r morfa heli a'r twyni wrth ymyl yr aber rynglanwol, mae dylanwadau'r môr lle mae'r môr a'r sych yn cyfarfod yn rhan o forlun arfordirol agored a chyfnewidiol.

Mae poblogaeth Llandudoch yn 1210 (tua 2021) a'r mwyafrif yn byw yn y pentref ei hun a phentrefi bach gwasgaredig a ffermydd yn cyfrannu ar y niferoedd.  Ar hyn o bryd mae yma ddwy dafarn, siop a busnes gwerthu/trwsio ceir o fewn ffiniau'r pentref a thafarn/gwesty arall yn Poppit. Mae twristiaeth yn rhan fawr o'r economi i leol, ac mae amrywiaeth o fusnesau gwyliau'n darparu llety. Felly yn ystod y cyfnodau gwyliau prysur mae'r niferoedd lawer yn uwch, ac ymwelwyr dydd eto'n ychwanegu at y niferoedd.

*(Cyngor Sir Penfro, 2019)*

# Tir sy'n Eiddo i'r Cyngor Cymuned

Mae llawer o'r tir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned yn ffinio ag Afon Teifi sydd wedi ei phennu'n Ardal Cadwraeth Arbennig [1] ac yn ffinio neu wedi ei phennu'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)[2] ac mae wedi ei chofrestru'n llain bentref.

Mae'r Cyngor Cymuned yn cydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y cynlluniau rheoli tir yn cydymffurfio â'r gofynion llym sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau diogelu'r dirwedd naturiol.

Mae'r Cyngor yn paratoi trefn fanwl o gynnal a chadw a thorri cloddiau ac ati bob blwyddyn – mae hyn yn ymgorffori'r gwaith torri ar ei dir amwynder (Gerddi Alexandra) a lleiniau porfa, yn ogystal â'r gwaith ar gyfer y Prosiect Bioamrywiaeth. Caiff y drefn dorri a'r cynllun bioamrywiaeth eu hadolygu a'u haddasu bob blwyddyn yn ôl yr angen ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ogystal caiff gwaith ei nodi weithiau fel ymyriad  brys a gwneir hyn ar sail 'yn ôl yr angen'. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos, drwy'r Cynghorydd Sir, wrth fonitro ardaloedd eraill nad ydynt yn eiddo i'r CC ond sy'n rhan o gyfrifoldeb Cyngor Sir Penfro.

Rhwng 2021 a 2024 dewisodd y Cyngor redeg prosiect Bioamrywiaeth 'Peilot', a'r nod oedd asesu'r bioamrywiaeth presennol, ei warchod, a lle'r oedd yn bosibl newid ei raglen cynnal a chadw i'w wella. Ar ddiwedd y peilot yn 2024 comisiynwyd Ecolegydd proffesiynol i wneud arolwg o dir sy'n eiddo i'r Cyngor i asesu'r prosiect a gwneud argymhellion pellach. Roedd darganfyddiadau'r adroddiad yn gadarnhaol iawn, a bydd y Cyngor Cymuned yn parhau ei brosiect ac yn gweithredu argymhellion lle bydd hynny'n ymarferol.

Mae Atodiad A yn dangos map o'r tir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned ac sy'n SoDdGA

Mae Atodiad B yn dangos mapiau a'r drefn dorri ar gyfer 2025-26 ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned

Mae Atodiad C yn rhoi trosolwg o waith ar Rywogaethau Anfrodorol Ymledol (INNS)

Mae Atodiad D yn dangos y clawr o'r 'Adroddiad Bioamrywiaeth' a gomisiynwyd (ar gael ar wefan y Cyngor)

---

[1] Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yn diogelu un neu fwy o gynefinoedd arbennig a/neu rywogaethau – ar dir neu yn y dŵr – sy'n cael eu rhestru yn yr Habitats Directive.

[2] Mae (SoDdGA) yn ddynodiad cadwraeth ffurfiol. Fel rheol mae'n disgrifio ardal sydd o ddiddordeb arbennig i wyddoniaeth oherwydd  y creaduriaid neu'r planhigion prin sydd ynddi – neu hyd yn oed nodweddion daearegol neu ffisiolegol pwysig a all fod o fewn ei ffiniau.

# Y Pinog

Mae’r tir a elwir ‘Y Pinog’ yn ffinio â glannau Afon Teifi rynglanwol.

Ardal o ddiddordeb hanesyddol oherwydd ei chysylltiad â mynachod yr Abaty a'r diwydiant pysgota lleol. Mae’r ardal yn aml dan ddŵr. Caiff ei rheoli i warchod cymeriad naturiol glan yr afon. Roedd y Pinog yn un o’r prif ardaloedd a nodwyd yn y cynllun peilot 3-blynedd ar fioamrywiaeth, fel lle ag iddo botensial i’w wella ar gyfer planhigion a  phryfed peillio. Bydd pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd yn ymweld yn aml ar hyd y llwybr cyhoeddus sy’n rhedeg drwy’r ardal. Mae’n boblogaidd gyda phobl sy’n cerdded eu cŵn a’r rheiny sydd am wylio’r adar sy’n bwydo ar y fflatiau llaid sy’n dod i’r wyneb pan fydd y llanw’n isel.





*Y Pinog Llandudoch*

# Gerddi Alexandra




*Gerddi  Alexandra*

Caiff y Gerddi eu rheoli fel man hamdden ffurfiol gyda seddau, meinciau picnic a lle chwarae'r plant. Caiff clogwyni'r afon wrth ymyl gerddi eu rheoli yn unol â chynllun rheoli 10 mlynedd a than drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Nod y rhaglen reoli gyfredol yw cael cydbwysedd rhwng gwarchod y bioamrywiaeth, hwyluso defnyddio fel man hamdden a sicrhau'r golygfeydd dros yr afon.

.



*Gerddi Alexandra yn dangos y ''pystion' hanesyddol i sychu rhwydi ar y chwith a ddefnyddid gan y pysgotwyr sân.*




*Bwrdd Bywyd Gwyllt gan yr arlunydd lleol Carol Kuhlman*

# Gweithio mewn Partneriaeth

Mae’r Cyngor yn gweithio gydag amrywiol bartneriaid i wella’r amgylchedd leol.




*Blwch planhigion sy’n eiddo i Gyngor Cymuned Llandudoch ym Mharc Ceir y Stryd Fawr yng ngofal Merched y Wawr*

Yn 2006 ariannodd y Cyngor raglen i reoli’r canclwm (Japanese Knotweed) yn y pentref. Mae cwmpas y pla canclwm wedi lleihau i tua 5% o’r hyn a gafodd ei drin ar ddechrau’r rhaglen. Mae’r Cyngor Cymuned yn dal i gadw llygad ar ei dir a mannau eraill ar gyfer y pla. Rhwng 2011 a 2017 cefnogodd y Cyngor brosiect arall i reoli Jac y Neidiwr (Himalayan Balsam), sydd wedi golygu dileu Jac y Neidiwr bron yn llwyr yn yr ardal.

Roedd Prosiect Perllan y Bobl (2016-2019), sy’n cael ei oruchwylio gan Hanes Llandoch, yn brosiect tair blynedd i wella’r amgylchedd yn ward Llandudoch a’r ardal o gwmpas. Roedd yn cefnogi dileu rhywogaethau ymledol gyda’r nod o greu cyfres o eco-systemau bio-amrywiol ledled yr ardal i annog amgylchedd sy’n garedig i beillwyr. Cafodd perllannau eu plannu ar dir cyhoeddus a thir preifat. Drwy weithio mewn partneriaeth â CADW, crëwyd dôl i flodau gwylltion ar dir yr Abaty. Er i’r prosiect ddod i ben ym mis Tachwedd 2019, mae gwirfoddolwyr yn dal i reoli a chynnal a chadw’r ardaloedd a grewyd yn ystod y prosiect, ac mae’r Cyngor Cymuned yn darparu arian grant (drwy gyfrwng Abaty 900 – Cyfeillion yr Abaty) i helpu gyda'r gwaith hwn.

Bydd y Cyngor yn gweithio’n agos gyda'i Gynghorydd Sir, Cyngor Sir Penfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Chyfoeth Naturiol Cymru i fonitro’r amgylchedd leol a mynd i’r afael ag unrhyw broblemau a nodir.

Bydd cyrff cymunedol a gwirfoddolwyr yn helpu cynnal a chadw nifer o’r blychau cyhoeddus a’r mannau cyhoeddus.

Mae’r Cyngor yn aelod o Bartneriaeth Rhwydwaith Natur Un Llais Cymru, sy’n caniatau inni rannu ein darganfyddiadau a hefyd i ddysgu gan Gynghorau Tref a Chymuned sydd o’r un duedd â ni.

# Pentref Yn Ei Flodau

Bron bob blwyddyn mae'r Cyngor wedi trefnu cystadleuaeth flynyddol boblogaidd Pentref Yn Ei Flodau yn agored i'r trigolion i gyd. Caiff y pentrefwyr eu hannog i anfon ffotograffau o'u gerddi, sydd wedyn yn cael eu barnu. Dyfernir cwpan a thystysgrifau i'r enillwyr. Yn ogystal â bod yn gystadleuaeth 'hwyl', mae'n annog pawb i gadw eu gerddi i bawb gael eu mwynhau, yn enwedig o flaen tai'r trigolion. Fel rhan o'r prosiect bioamrywiaeth, penderfynwyd ychwanegu categori ar gyfer gerddi gwyllt. Caiff hon ei barnu nid yn unig yn ôl pa mor ddeniadol yw'r gerddi, ond a ydynt yn llesol ar gyfer bryfed peillio a bywyd gwyllt yn gyffredinol.



*Yr Ardd Wyllt Fuddugol 2023*



*Yr Orau Mewn Cynwysyddion 2023*



*Yr Ardd Ffurfiol Fuddugol 2023*

# Afiechyd Coed Ynn

Fel ym mhobman ledled Prydain, mae'r Afiechyd Coed Ynn wedi lledu yn Llandudoch ac yng Ngorllewin Cymru. Bydd y Cyngor Cymuned yn gyson yn monitro'r coed ar ei dir, ac yn 2021 lluniodd fap manwl o'r holl goed ynn a chynllun manwl sut y byddai'n monitro'r coed sy'n dioddef ac wedyn yn eu torri i lawr. Caiff y coed sy'n dioddef ac sy'n cael eu hystyried yn berygl ar unwaith o ran iechyd a diogelwch, h.y. rhai'n agos at lwybrau troed a lle mae mynediad i'r cyhoedd, eu torri i lawr a bydd y coed sydd ar ôl yn cael eu monitro'n barhaus. Bu un cynghorydd ar gwrs i ddysgu adnabod amrywiol gamau'r afiechyd, a cheir cyngor yn rheolaidd gan Swyddog Coed Sir Benfro. Mae arolwg llawn o gyflwr y coed  wedi ei gomisiynu ar gyfer 2025 ac mae'n parhau.

Cafodd y coed a oedd yn dioddef waethaf ac mewn perygl o ddisgyn eu torri i lawr gan gontractiwr yn ystod y gaeaf 2021-22. Lle barnwyd ei bod yn ddiogel gwneud hynny, cafodd rhai coed eu tocio i uchder diogel o 2-3 metr yn hytrach na'u cwympo'n llwyr. Roedd hynny'n cyd-fynd â'r farn mewn cadwraeth gyda'r nod naill ai y byddai'r goeden yn adnewyddu ohoni ei hun ac yn dod i wrthsefyll yr afiechyd, neu o fethu hynny yn dod yn adnodd 'pren marw' defnyddiol ar gyfer chwilod a phryfed. Mae monitro a gwaith cwympo pellach yn mynd ymlaen yn ôl yr angen.


.




*Onnen yn dioddef o'r Afiechyd ar y Pinog*

# Atodiad A


Map yn dangos lleoliad y SoDdGA ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned



**Atodiad B** – Mapiau o dir yn eiddo i'r Cyngor Cymuned a'r drefn torri porfa 2025-26




*Map Trefn Gerddi Alexandra*




*Map Trefn y Pinog*

| ST Dogmaels Community Council Cutting Contract for 3 years - 2026-27 to 2028-29 Seasons (Produced September 2025) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Location** | **Description of Location** | **Description of Work** | **Number of cuts/interventions for year** | **Map ID** |
| **Glanteifi Hill Area** | | | | |
| Glanteifi Hill | Verge as far as Highway Sign 'Pedestrians in Road' | Full Cut (**Not** The Daffodil Strip April - June) | 12 | 1 a |
| **Green Meadow Area** | | | | |
| Green Meadow Bank | Green Meadow Bank between pavement and boundary | Full Cut | 12 | 5 |
| **Alexandra Gardens - Blessing Stone Area** | | | | |
| Blessing Stone Path and Bench | Access path edge and around bench | Keep path edges trimmed back and clear around bench | 12 | 7 e |
| Blessing Stone and Jetty | Path around Blessing and Path to Landing Stage | Clear paths of earth and weeds and any over growth. Maintain Drainage channels by Blessing Stone | 3 | 7 f (1) |
| Blessing Stone | Blessing Stone Trees | Coppice Sycamores by Blessing Stone and approaches | 1 | 7 f (2) |
| Blessing Stone | Bank Above and Around Blessing Stone | Remove growth from retaining wall and overhanging plants where safe to do so. Remove Weeds around the Stone | 2 | 7 g, 7h |
| Slope above the Path to Jetty | Slope above path to Landing Stage | Brush Cut Bank to remove Brambles, Gorse etc | 1 | 7 i |
| **Alexandra Gardens - Below Playground** | | | | |
| Sleeper Steps to Pinog | Sleeper Slope Steps | Clear Earth and weed from sleeper steps | 1 | 7 k |



Rhan o raglen 2025-26

Map o'r Pentref (Contract Torri Porfa)

# Atodiad C

## Rhywogaethau Ymledol

### Canclwm Japan
Mae Cyngor Cymuned Llandudoch yn dal i drin y Canclwm lle mae'n digwydd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac mae'n talu am drin darnau eraill o dir cyhoeddus lle byddai'r rhywogaeth yn effeithio ar y pentref pe bae'n lledu. Er bod y canclwm wedi lleihau tua 95% ledled y ward, caiff safleoedd eu monitro'n ofalus i sicrhau nad yw'r planhigion yn ailymddangos.

### Jac y Neidiwr
Yn dilyn rhaglen o reoli rhwng 2011 a 2017, mae mwyafrif y safleoedd lle'r oedd Jac y Neidiwr yn tyfu nawr yn rhydd o'r planhigyn, gan olygu bod y rhywogaethau brodorol a arferai dyfu yno yn ailymddangos. Er bod y rhan fwyaf o'r Canclwm wedi ei ddileu'n llwyddiannus, mae grŵp bychan o drigolion yn monitro'r ardaloedd gan ddinistrio'r planhigyn lle mae'n ailymddangos.

### Eraill

Mae planhigion problemus eraill lle maent yn digwydd yn cael eu dinistrio, ac ymhlith rhywogaethau sydd wedi eu nodi'n ddiweddar a'u dinistrio mae Monbretia (*Crocosmia*) {y Pinog} a'r Afal Dreiniog (*Datura stramonium*) {Traeth Poppit}.

# Atodiad D

Rhan o’r adroddiad Bioamrywiaeth

Arolwg Bioamrywiaeth a Rheoli Cadwriaeth

Y Pinog a Gerddi Alexandra, Llandudoch



Lluniwyd ar ran Cyngor Cymuned Llandudoch

gan Steve Halton, Ecolegydd


Rhagfyr 2024

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i ddiffinio'r cysyniad o Lywodraethiant Cymunedol yn y gyfraith, drwy ddarn unigryw o ddeddfwriaeth, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dyma'r 7 Nod:

1. Cymru Ffyniannus: Economi arloesol, cynhyrchiol ac isel o ran carbon.
2. Cymru Wydn: Cenedl sy'n cynnal yr amgylchedd naturiol ac yn defnyddio adnoddau'n ddoeth.
3. **Cymru Iachach**: Pobl yn byw bywydau hirach, iachach gyda mwy o amser i'w mwynhau.
4. **Cymru Fwy Cyfartal**: Lleihau anghydraddoldeb, a meithrin tegwch.
5. **Cymru o Gymunedau Cydlynol**: Cymunedau cryf, gwydn a chefnogol.
6. **Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg sy'n Ffynnu:** Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth.
7. **Cymru sy'n Gyfrifol yn y Byd**: Gwneud ei rhan mewn byd teg a chynaliadwy.




(7 Nod Llesiant – mae Cymru'n gwneud pethau'n wahanol, 2015)